

Hawliau Plant
Cymru

Children's Rights
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2021-22

Tachwedd 2022

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD
PLANT CYMRU 2021-22**

Rhagair gan

**Y Gwir Anrh Mark Drakeford AS
Prif Weinidog Cymru**



a

Jane Hutt AS

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol



RHAGAIR

Fel llywodraeth, rydym yn croesawu'n fawr adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant ar gyfer 2021/22.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022 ac yn adlewyrchu blwyddyn olaf y Comisiynydd Plant blaenorol, yr Athro Sally Holland. Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch iddi am ei chyfraniad i warchod a hyrwyddo hawliau plant yng Nghymru.

Hoffem hefyd groesawu'r Comisiynydd Plant newydd, Rocio Cifuentes, a ddechreuodd ei thymor ym mis Ebrill eleni. Mae'r Comisiynydd wedi defnyddio'r cyfnod cychwynnol hwn i gwrdd â phlant a phobl ifanc ledled Cymru – gan roi'r cyfle iddynt leisio'u barn a dylanwadu ar ei chynllun gwaith tair blynedd. Edrychwn ymlaen yn fawr at weld canlyniad yr ymarfer hwn a hefyd at weithio mewn partneriaeth â hi yn ystod ei chyfnod fel Comisiynydd Plant.

Mae'r Comisiynydd yn tynnu sylw yn ei chyflwyniad at effaith y pandemig COVID-19 a nawr yr argyfwng costau byw ar blant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Mae ein hymrwymiad i hawliau plant yn bwysicach nag erioed wrth inni wynebu'r cyfnod heriol hwn. Rydym yn deall yr effaith ddwys y mae hyn yn ei chael ac y bydd yn parhau i'w chael ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mae adroddiad blynyddol y Comisiynydd Plant yn gyfle pwysig i ni bwysu a mesur cynnydd ac ystyried galwadau'r Comisiynydd arnom i fynd ymhellach. Mae'r adroddiad yn gwneud 16 o argymhellion i Lywodraeth Cymru ac rydym yn falch o dderbyn, neu dderbyn mewn egwyddor, yr holl argymhellion. Mae ein hymrwymiad i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn parhau ac rydym yn falch o'n hanes o hyrwyddo hawliau plant. Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn parhau i fod yn sail i'n holl benderfyniadau polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

Rydym wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi plant a phobl ifanc Cymru.

CYNNWYS

CYFLWYNIAD	4
Safon Byw Sy'n Ddigonol.....	5
1. Taclo tlodi plant	5
2. Trafnidiaeth.....	7
3. Eiriolaeth Iechyd	8
Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen	9
4. Llety diogel i blant ag anghenion cymhleth	9
5. Cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal	11
6. Pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.....	12
7. Llety o safon uchel ac opsiynau cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn gofal ac yn gadael gofal.....	13
Amddiffyn Rhag Ecsbloetio a Thrais.....	14
8. Amddiffyn plant rhag ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol	14
9. Diwygio gwasanaethau cyfiawnder ieuencid	15
Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol.....	16
10. Diwygio byd addysg	16
11. Addysgu gartref.....	18
12. Ysgolion annibynnol.....	19
13. Cymwysterau	20
14. Cefnogaeth ysgol gyfan i iechyd meddwl a llesiant	22
15. Adolygiad teithio gan ddysgwyr.....	23
16. Gwaharddiadau.....	24
Atodiad A – Crynodeb o Ymatebion Llywodraeth Cymru.....	25

CYFLWYNIAD

Cyhoeddodd Comisiynydd Plant Cymru ei hadroddiad blynyddol ar gyfer 2021-22 ar 11 Hydref 2022. Gellir gweld yr adroddiad [yma](#).

Mae'r Comisiynydd wedi cyflwyno 16 o argymhellion i Lywodraeth Cymru eu hystyried a darparu ymateb. Mae'r argymhellion yn ymwneud ag amrywiaeth eang o feysydd ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:

- Taclo tlodi plant
- Trafnidiaeth
- Eiriolaeth Iechyd
- Llety diogel i blant ag anghenion cymhleth
- Cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal
- Pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal
- Llety o safon uchel ac opsiynau cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn gofal ac yn gadael gofal
- Amddiffyn plant rhag ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol
- Diwygio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid
- Diwygio byd addysg
- Addysgu gartref
- Ysgolion annibynnol
- Cymwysterau
- Cefnogaeth ysgol gyfan i iechyd meddwl a llesiant
- Adolygiad teithio gan ddysgwyr
- Gwaharddiadau

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn 13 o'r argymhellion, yn derbyn 3 ohonynt mewn egwyddor, ac nid yw'n gwrthod unrhyw un o'r argymhellion.

Mae'r ddogfen hon yn nodi pob un o argymhellion y Comisiynydd ac yna'r ymateb gan Lywodraeth Cymru. Mae Atodiad A yn cynnwys trosolwg o'r argymhellion a chrynodeb o'r ymatebion.

Safon Byw Sy'n Ddigonol

1. Taclo tlodi plant

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i daclo achosion gwaelodol tlodi plant barhau'n ffocws clir a pharhaus i Lywodraeth Cymru, gan fod hynny'n sylfaen ar gyfer cynifer o'u cyfleoedd mewn bywyd a'u canlyniadau a'u rhagolygon i'r dyfodol. Mae angen i'r gwaith eleni'n arbennig ymdrin â theuluoedd ar gyrion gofal, lle mae plant mewn perygl o gael niwed neu gael eu hesgeuluso, a mynd i'r system ofal. Dylai hyn ffurfio rhan o Gynllun Gweithredu Tlodi Plant.

Rhaid i Lywodraeth Cymru osod targedau uchelgeisiol ar gyfer taclo tlodi plant yng Nghymru, gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael iddynt, ochr yn ochr â chynllun gweithredu cyhoeddus cynhwysfawr, ac amserlenni a fydd yn manylu ar sut caiff y bunt gyhoeddus yng Nghymru ei gwario ar liniaru effaith tlodi plant yng Nghymru. Rhaid cyhoeddi'r cynllun hwn ochr yn ochr â'r strategaeth tlodi plant wedi'i diweddarau, sydd i'w chyhoeddi erbyn diwedd 2022.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn

Mae'r ymgynghoriad ar ddatblygu strategaeth tlodi plant newydd Llywodraeth Cymru ar y gweill, gan ystyried yr argyfwng costau byw sy'n dwysáu, a'i effaith ar y rhai sydd â'r angen mwyaf.

Ar adeg pan fo pobl yn wynebu pwysau mor eithafol, rydym yn targedu'r holl adnoddau posibl i weithredu'n uniongyrchol i fynd i'r afael ag effaith yr argyfwng ar ddinasyddion Cymru, dinasyddion y mae llawer ohonynt eisoes yn byw mewn tlodi.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ar ein dull o daclo tlodi plant i'r dyfodol, wrth inni geisio deall yn well effaith yr argyfwng ar lawr gwlad. Bydd yr adborth a gawn yn helpu i bennu'r ffordd fwyaf effeithiol o dargedu adnoddau Llywodraeth Cymru ar yr amser anodd hwn, gan gefnogi ein dull ehangach o daclo tlodi yn y dyfodol.

Mae gennym strategaeth yn ei lle ar hyn o bryd. Mae'r amcanion tlodi plant a nodir yn y strategaeth honno'n parhau i fod yn berthnasol ac o bwys allweddol. Fodd bynnag, nid tasg i Lywodraeth Cymru yn unig yw lleihau tlodi ac anghydraddoldeb yng Nghymru. Yn gyson ag [adroddiad](#) Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, byddwn yn ymgysylltu â'n holl bartneriaid allweddol ledled Cymru ac yn galw arnynt i weithio yn unol â'r strategaeth, gan gryfhau effaith ein hymdrechion ar y cyd drwy gydweithio tuag at nod cyffredin.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi ein hadolygiad bob tair blynedd o'r Strategaeth Tlodi Plant yn ddiweddarach eleni.

Bydd ein gwaith gyda theuluoedd ar gyrion gofal, lle mae plant mewn perygl o gael eu niweidio neu eu hesgeulustod a mynd i'r system ofal, hefyd yn parhau. Rydym eisoes yn canolbwyntio ar y grŵp hwn o bobl ifanc, gan dreialu'r Cynllun Incwm Sylfaenol gyda phobl ifanc sy'n gadael gofal y gwyddwn eu bod yn debygol iawn o wynebu canlyniadau gwael. Mae atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eiriolaeth i rieni y

mae eu plant yn wynebu risg o fynd i ofal yn un o brif ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn Cynadleddau Grŵp Teulu i helpu teuluoedd i ddatblygu eu datrysiadau eu hunain i'r anawsterau y maent yn eu hwynebu.

2. Trafnidiaeth

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiad i beilot o gynnig trafndiaeth gyhoeddus ar y bus a'r trê'n am ddim i bobl ifanc o dan 18 oed yn ei chynlluniau deddfwriaethol sydd i ddod ar gyfer trafndiaeth yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad cost a budd ac amserlenni manwl ar gyfer rhychwantu a rhoi ar waith. Bydden ni'n gweld hyn fel elfen hanfodol o daclo tlodi plant yng Nghymru, a bydden ni'n disgwyl gweld hyn yn cael ei gynnwys mewn cynllun tlodi plant cynhwysfawr.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derby'n mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ariannu cynllun FyNgherdyn Teithio sy'n cynnig traean oddi ar bris tocynnau i bobl ifanc sy'n defnyddio bysiau. Mae ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu hefyd yn nodi sut y byddwn yn adeiladu ar lwyddiant y cynllun hwnnw. Mae gwaith manwl ar y gweill i ystyried amrywiaeth o opsiynau i ddarparu system sy'n cynnig prisiau mwy teg ar gyfer tocynnau bysiau ledled Cymru.

Er nad ydym wedi diystyru'r cynnig i alluogi teithio am ddim, rhaid inni fod yn realistig am y cyfyngiadau cyllidebol y mae'n rhaid inni weithredu oddi mewn iddynt. O ran pŵer prynu, mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn werth llawer yn llai heddiw nag yr oedd ddeuddeg mis yn ôl.

3. Eiriolaeth Iechyd

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno manylion ynghylch sut mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn cynnig eiriolaeth annibynnol sy'n hygyrch ac yn cynnwys eiriolaeth wyneb yn wyneb yn ôl y gofyn. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynnig eiriolaeth hwn yn cael ei hyrwyddo'n glir mewn lleoliadau iechyd a hefyd, yn bwysig, ar wefannau byrddau iechyd.

Dylid cyflwyno'r cynnig eiriolaeth trwy ganllawiau statudol annibynnol. Yn gam cyntaf at hyn, dylid cyhoeddi cyfres o fanylebau gwasanaeth ar gyfer eiriolaeth i blant ym maes gofal iechyd. Dylai estyn cynnig eiriolaeth gychwyn â hawl i bawb sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl uwchradd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Ym mis Gorffennaf 2019, cafodd cyfres o egwyddorion craidd ar gyfer eiriolaeth eu datblygu gan Lywodraeth Cymru, cynrychiolwyr o'r byrddau iechyd a swyddfa'r Comisiynydd Plant er mwyn cefnogi plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r egwyddorion hyn yn ffordd i bob Bwrdd Iechyd Lleol ddechrau gweithio tuag at un dull eiriolaeth.

Bydd swyddogion yn gweithio gyda Fforwm Eiriolaeth Cymru Gyfan i benderfynu ar y ffordd orau o ymgorffori'r egwyddorion craidd hyn yn y gwasanaeth iechyd heb droi at ganllawiau statudol.

Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen

4. Llety diogel i blant ag anghenion cymhleth

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Mae angen i gynlluniau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer llety newydd diogel wneud cynnydd yn gyflym er mwyn dod yn weithredol yn 2022/23, gyda gorolwg a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod pob enghraifft yn amgylchedd therapiwtig sy'n cael eu hariannu a'u cyflwyno ar y cyd gan iechyd a gofal cymdeithasol fel partneriaid cyfartal.

Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi'n ddi-oed ddatganiad ysgrifenedig yn manylu ar sut mae gwneud gwelliannau a gynhelir i'r Ddarpariaeth Iechyd Meddwl Haen 4 a'r ddarpariaeth Lles Diogel yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc sydd angen gofal yn y lleoliadau hyn yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, therapiwtig.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn mewn egwyddor

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gan blant sy'n derbyn gofal ac sydd ag anghenion cymhleth wasanaethau sy'n sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at gartref â phosibl ac yng Nghymru, pan fo hynny'n ymarferol. Mae hon yn flaenoriaeth glir sydd wedi'i nodi yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Mae'n bwysig bod plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth yn cael cyfle i barhau i fyw yn eu cymunedau neu'n agos atynt, fel eu bod yn cynnal cysylltiadau â theulu, ffrindiau a rhwydweithiau cymdeithasol eraill. Rydym am osgoi lleoli plant y tu allan i'w hardal i gael y gofal a'r cymorth cywir ar yr amser cywir.

Yn 2021-22, darparodd Llywodraeth Cymru tua £4.8 miliwn i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng Nghymru i ddatblygu darpariaeth breswyl ranbarthol i ddiwallu anghenion y plant a'r bobl ifanc yn eu cymunedau.

Mae'r Prosiect Cartrefi Bach yn cael ei weithredu fel prosiect ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae bwrdd rhaglen yn cael ei sefydlu gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys pobl ifanc i gynnig darpariaeth ddiogel ranbarthol gyda chefnogaeth gofleidiol a chomisiynu/cynllunio ar y cyd gyda'r sector iechyd.

Haen 4

Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau i fod yn flaenoriaeth a chafodd £50 miliwn yn ychwanegol ar gyfer iechyd meddwl a lles ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru yn 2022-23. Mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno o'r blaen ar raglen gwella Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSCs) ar gyfer ein dwy uned Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) haen 4 yng Nghymru, gyda chefnogaeth £1.4 miliwn o gyllid ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gael diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn y cynllun gwella.

Er mwyn cefnogi gwelliannau i sicrhau gwasanaethau iechyd meddwl yn fwy cyffredinol, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o wasanaethau diogel yn 2020/21. Roedd

argymhellion yr adolygiad yn hysbysu Strategaeth Gwasanaethau Arbenigol ar gyfer Iechyd Meddwl WHSSC yr ymgynghorwyd arni â rhanddeiliaid rhwng mis Mai a mis Mehefin 2022 ac a fydd yn cael ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2023. Bydd y Strategaeth yn nodi'r camau gweithredu dros y 5 mlynedd nesaf i wella gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol a gomisiynir gan WHSSC sy'n cynnwys CAMHS haen 4. Felly manylir ar gynlluniau i'r dyfodol ar gyfer gwelliannau hirdymor a chynaliadwy i'r gwasanaeth haen 4 yng Nghymru fel rhan o Strategaeth WHSSC.

5. Cefnogaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Mae'n rhaid datblygu deddfwriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddi – i ddiogelu a chynnal hawliau plant ym maes gofal cymdeithasol – a'i chyflwyno cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau ei bod yn dod i rym yn gyfforddus o fewn tymor cyfredol y Senedd. Hefyd mae angen darparu cyllid ar gyfer unrhyw hawliau deddfwriaethol newydd.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu a gweithredu polisiâu i gefnogi pobl sy'n gadael gofal i drosglwyddo'n llwyddiannus i fyw'n annibynnol. Er mwyn bwrw ymlaen â'r ymrwymiad hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Deddfu yn ystod tymor y Senedd hon er mwyn sicrhau bod gan bob person ifanc sy'n gadael gofal Gyngorydd Personol nes y bydd yn 25 oed
- Gyda'n partneriaid, parhau â'n gwaith o ddatblygu ystod o opsiynau llety o safon uchel i'r rhai sy'n gadael gofal
- Byddwn yn parhau i gynnig cymorth ychwanegol i'r rhai sy'n gadael gofal i bontio'n llwyddiannus tuag at fyw'n annibynnol ac mae hyn yn cynnwys parhau â'r gefnogaeth a gynigir drwy Gronfa Dydd Gŵyl Dewi

Rydym yn cefnogi'r egwyddor o wybodaeth glir am grantiau, budd-daliadau, a hawliau sydd ar gael i bobl ifanc pan maent yn gadael gofal. Rydym yn gwybod bod sefydliadau'r trydydd sector a swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi sicrhau bod gwybodaeth ariannol ar gael i gefnogi pobl ifanc wrth iddynt adael gofal. Hoffem harneisio ymdrechion y trydydd sector a phartneriaid i ddarparu'r adnodd hwn i'r rhai sy'n gadael gofal.

Mae cynllun When I'm Ready (WIR) yn berthnasol i blant mewn gofal maeth. Ar ôl ystyried a thrafod yn ofalus, rydym yn teimlo na ellir addasu'r un model yn hawdd ar gyfer gofal preswyl. Rydym yn datblygu ac yn defnyddio modelau amgen gan ddefnyddio egwyddorion y cynllun WIR i sicrhau bod pob person ifanc yn gallu byw mewn amgylchedd cefnogol sy'n gweddu orau i'w anghenion ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Er enghraifft, cynnal cysylltiadau â'u cartref gofal preswyl blaenorol, symud i drefniant gofal maeth WIR, a chael eu cefnogi gan eu cynghorydd personol fel rhan o waith cynllunio llwybrau gwell a llety â chymorth priodol. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i fwrw ymlaen â hyn gan gynnwys cydweithwyr ym maes tai, yn y trydydd sector, mewn awdurdodau lleol ac yn Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Mae hyn yn rhan o'n gwaith i wella ystod ac opsiynau llety i bobl ifanc.

6. Pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Bydd rhoi Siarter Rhianta Corfforaethol newydd ar waith yn llwyddiannus yn galw am newidiadau deddfwriaethol neu reoliadol er mwyn mynnu bod sefydliadau'n cydymffurfio â'r dyletswyddau. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno amserlen ar gyfer symud y newid deddfwriaethol hwn ymlaen erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae 'cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel rhiant corfforaethol' yn un o brif ymrwymadau'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r weithred hon yn adeiladu ar y gwaith paratoi a wnaed yn ystod tymor y Senedd ddiwethaf a'r dull y mae'r Gweinidogion wedi cytuno iddo.

Er bod rhianta corfforaethol yn cael ei gymryd o ddifrif gan awdurdodau lleol, ein nod yw cryfhau rhianta corfforaethol ar draws pob adran yn yr awdurdod lleol, er mwyn galluogi gwell gwaith partneriaeth a gwell pontio rhwng gwasanaethau a ddarperir ar gyfer plant sydd â phrofiad o ofal.

Byddwn yn ehangu'r cysyniad o rianta corfforaethol ar draws pob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i blant sydd â phrofiad o ofal, er mwyn sicrhau eu bod yn cael yr ymateb a'r cymorth gorau gan y gwasanaethau hyn.

Mae Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol wedi bod yn gweithio i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad hwn. Cynrychiolir ystod o randdeiliaid ar y Grŵp gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal, y trydydd sector a chynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Mae'r Grŵp wedi canolbwyntio ar ddatblygu Siarter Wirfoddol sy'n nodi egwyddorion rhianta corfforaethol. Mae pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygu'r Siarter.

Pan fydd y Siarter ddrafft wedi'i chytuno fis nesaf, bydd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn cael eu trefnu ar gyfer yr hydref a'r gaeaf, gyda digwyddiadau penodol ar gyfer awdurdodau lleol, ieched, tai ac addysg. Byddwn ni hefyd yn datblygu Canllawiau Statudol yn 2024 i gryfhau cyfrifoldebau rhianta corfforaethol ac estyn dyletswyddau.

Rhagwelir y bydd y gweithgaredd siarter ac ymgysylltu yn helpu i lunio cynnwys canllawiau statudol. Bydd hyn yn cynnwys pennod a ychwanegwyd at Ran 6 o'r Cod Ymarfer, o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, a bydd 'bachau' deddfwriaethol eraill yn cael eu hystyried i gryfhau'r trefniadau gydag ieched a chyrrff cyhoeddus eraill.

7. Llety o safon uchel ac opsiynau cefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn gofal ac yn gadael gofal

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu gweithgor yn 2022/23 i archwilio Llety heb ei Reoleiddio. Rhaid mai nodau'r gwaith hwn fydd:

- Casglu data i ddatblygu dealltwriaeth o'r defnydd ohono yng Nghymru
- Ystyried anghenion y bobl ifanc yr effeithir arny'n nhw er mwyn canfod ble mae diffygion yn y llety sydd ar gael
- Archwilio a oes angen newidiadau yn y system reoleiddio yng Nghymru i ddyfarnu amddiffyniad cryfach i bobl ifanc

Mae angen cwblhau'r gwaith yn nhymor y Senedd hon, gan gynnwys unrhyw newidiadau rheoliadol sy'n ofynnol.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbynnir

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ac mae'n gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant mewn awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â'r materion sy'n ymwneud â llety heb ei reoleiddio.

Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol ar 14 Hydref i drafod darpariaethau heb eu rheoleiddio a'r rhai sy'n gweithredu heb gofrestru. Bydd y gwaith hwn yn awr yn dod o dan raglen waith a ffrwd waith Dileu Elw yr Awdurdod Lleol.

Derbynnir yr argymhelliad yn llawn. Rydym yn gweithio gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant ac AGC i ddeall y materion a'r heriau dan sylw sy'n arwain at ddefnyddio llety heb ei reoleiddio, ac yn datblygu ein hymateb, gan gynnwys pryd i orfodi'r rheoliadau presennol, fel rhan o'n gwaith trawsnewid ehangach mewn perthynas â dileu elw ac ail-lunio'r ddarpariaeth.

Amddiffyn Rhag Ecsbloetio a Thrais

8. Amddiffyn plant rhag ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Yn dilyn cyhoeddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol, rhaid i Lywodraeth Cymru gydlyn a chyhoeddi Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru i sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd a'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Dylai pobl ifanc eu hunain fod yn gyfranogwyr yn y gwaith hwn. Bydd angen gwneud hyn mewn modd diogel a sensitif.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan lawn yng ngwaith yr Ymchwiliad Annibynnol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) ers iddo gael ei sefydlu. Drwy dystiolaeth ffurfiol a thrwy Grŵp Cyfeirio IICSA Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwmo i ystyried argymhellion terfynol yr IICSA.

Yn ogystal â'n hymateb ffurfiol i'r Ymchwiliad, byddwn yn ystyried argymhellion yr IICSA, yr adroddiad cyflenwi sydd ar ddod ar Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol a chanlyniadau ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Mae Plant yng Nghymru wedi'u comisiynu i gynnal rhaglen o ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid yn ystod gwanwyn 2023.

Bydd y tri darn hyn o dystiolaeth yn llywio datblygiad cynllun gweithredu er mwyn bwrw ymlaen ag argymhellion yr IICSA ac unrhyw waith ychwanegol a nodwyd i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yng Nghymru.

Rydym wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda sefydliad arbenigol ynghylch ein cefnogi i ymgysylltu â phobl ifanc unwaith y bydd cynllun gweithredu amlinellol ar atal ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei ddatblygu. Ym mlwyddyn ariannol 2023-2024 byddwn yn gweithio gyda phobl ifanc a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu a chyhoeddi'r cynllun gweithredu yn llawn. Byddwn yn comisiynu sefydliad allanol arbenigol i arwain y gwaith hwn i sicrhau bod y gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd sensitif a bod y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn cael cefnogaeth dda.

Mae Byrddau Diogelu Plant Rhanbarthol wedi cytuno i barhau â gwaith â ffocws ar fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, a gychwynnwyd o dan y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol yn y cyfnod cyn cyhoeddi cynllun gweithredu newydd.

9. Diwygio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol ar waith y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn 2022/23, i gynorthwyo atebolrwydd. Dylai hyn ymdrin â materion troseddoli pobl ifanc, gorgynrychiolaeth rhai grwpiau ac effaith iechyd meddwl gwael ar y rhai sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cynnydd o ran Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn weithredol ac yn ystyrion er mwyn datblygu'r Prosiect Cartrefi Bach eleni, er mwyn newid ymhellach sut rydyn ni'n ymateb i anghenion pobl ifanc ac yn ymdrin â nhw trwy wasanaethau cyfiawnder ieuenctid.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r Cynllun Gweithredu Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi ein cynnydd ar y cyd yn erbyn ymrwymadau'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid ac fe'i cyhoeddir yn flynyddol ym mis Mawrth.

Mae disgwyl i'r Cynllun Gweithredu nesaf gael ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023 ac mae'n gyfle i dynnu sylw at gyflawniadau hyd yma ac at gynnydd parhaus o ran cyflawni ymrwymadau'r Glasbrint.

Cynrychiolir swyddogion o'r Is-adran Diogelwch Cymunedol ar Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a byddant yn sicrhau bod y cynnydd yn erbyn y Glasbrint i bob pwrpas yn cael ei fwydo i'n hadroddiad sefydliadol yn erbyn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Prosiect Cartrefi Bach

Mae'r Prosiect Cartrefi Bach yn cael ei weithredu fel prosiect ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae bwrdd rhaglen yn cael ei sefydlu a fydd yn pennu, drwy weithio gyda rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys pobl ifanc, sut olwg allai fod ar gartref bach diogel yng Nghymru, gyda'r bwriad o ddatblygu darpariaeth newydd yn ystod tymor y Senedd.

Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol

10. Diwygio byd addysg

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull seiliedig ar gydraddoldeb i werthuso gweithrediad y diwygiadau i fyd addysg. Dylai hynny asesu i ba raddau mae gwahanol grwpiau o blant yn elwa ar y dull newydd o ymdrin â'r cwricwlwm, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd â nodweddion gwarchoddedig ac anghenion dysgu ychwanegol. Dylid casglu canfyddiadau cychwynnol ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r cwricwlwm, a dylen nhw lywio'r gefnogaeth barhaus ar gyfer gweithredu.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i gynnal gwerthusiad trylwyr a thryloyw o'n diwygiadau cwricwlwm ac asesu, er mwyn deall sut mae'r diwygiadau'n gweithio ac i archwilio i ba raddau y maent yn cael yr effaith a ddymunir ar gyfer pob dysgwr o bob cefndir ac angen. Bydd hyn yn golygu sicrhau bod gwaith ymchwil yn canolbwyntio ar grwpiau penodol o ddysgwyr a hefyd yn cyrraedd pob rhan o gymuned y dysgwyr.

Ar 13 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [astudiaeth gwmpasu yn ymwneud â gwerthuso'r diwygiadau cwricwlwm ac asesu yng Nghymru](#). Mae'r adroddiad hwn yn gam pwysig i'n helpu i lunio ein cynlluniau gwerthuso.

Mae'r adroddiad cwmpasu yn nodi'r cwestiynau ymchwil a gwerthuso i ddeall sut mae'r diwygiadau'n gweithio, ar gyfer pwy y maent yn gweithio ac ym mha gyd-destunau, ac a yw canlyniadau ac effeithiau disgwylidig y diwygiadau yn cael eu gwireddu yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hwy. Mae hefyd yn argymhell rhaglen ymchwil uchelgeisiol ac eang, monitro cenedlaethol a gwerthuso sy'n briodol i ateb y cwestiynau hyn. Mae'r adroddiad hwn a'i argymhellion yn glir bod deall profiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn hanfodol i'w werthuso'n llwyddiannus. Mae hynny'n cynnwys deall a yw dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig, dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cefnogi i wneud cynnydd i'w llawn potensial.

Fel y nodwyd yn [ymateb](#) Llywodraeth Cymru, byddwn yn ystyried y meysydd gwaith penodol a argymhellir a byddwn yn cyhoeddi diweddariad ar ddatblygiadau yn nhymor yr hydref 2022 ac yn ceisio cyhoeddi cynllun gwerthuso manwl yn nhymor yr haf 2023.

Nod hyn yw sicrhau bod ein gwerthusiad yn cyd-fynd ag argymhellion [project cyflenwol](#) (ymchwil i'r anghenion a'r defnydd o ran gwybodaeth a data yn y system ysgolion yng Nghymru), sy'n cael ei gynnal i nodi'r anghenion o ran gwybodaeth a data ar draws y system ysgolion yng Nghymru, a fydd yn adrodd yn ddiweddarach yn yr hydref. Yr amcan arall yw datblygu cynlluniau hirdymor wedi'u hintegreiddio.

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu deall y profiad a'r dysgu o flwyddyn gyntaf gweithredu'r cwricwlwm, rydym yn cynnal ymchwil gychwynnol ar raddfa lai y tymor hwn. Bydd yr ymchwil gychwynnol hon yn ystyried profiadau dysgwyr ac ysgolion ledled Cymru a bydd yn ein helpu i ddeall yr hyn sy'n rhwystro a'r hyn sy'n hwyluso

Ilwyddiant. Bydd hyn yn cefnogi ein dealltwriaeth o sut mae ein cwricwlwm yn cefnogi dysgwyr o bob cefndir i lwyddo. Bydd ei ganfyddiadau yn llywio Adroddiad Blynyddol Cwricwlwm 2023 Llywodraeth Cymru, gan helpu i bennu blaenoriaethau'r llywodraeth ar gyfer cefnogi ysgolion yn y flwyddyn ganlynol ac wedi hynny.

O ystyried rôl ganolog y Cwricwlwm i Gymru yn ein diwygiadau ehangach i fyd addysg, rydym yn cydnabod y cysylltiadau pwysig rhwng y prosiectau tystiolaeth a argymhellir a'r gwaith a wneir mewn rhannau eraill o'r system, ac yn ehangach ar draws y Rhaglen Lywodraethu. Bydd ein cynllun gwerthuso yn sicrhau bod gweithgarwch ymchwil a gwerthuso yn gyson ac wedi'i integreiddio pan fo'n briodol er mwyn rhoi darlun cyfannol, lleihau baich ar gyfranogwyr ymchwil a gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

11. Addysgu gartref

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gwerthuso ar gyfer gweithredu'r canllawiau statudol newydd, ochr yn ochr â'r canllawiau hynny. Dylai hyn fesur yn benodol pa ganran o blant a addysgir gartref sy'n cael eu gweld, ac y ceir sgwrs flynyddol â nhw ynghylch eu haddysg.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Bydd cynllun gwerthuso ar gyfer gweithredu'r cynigion addysg ddewisol yn y cartref yn cael ei gyhoeddi yn 2023 ochr yn ochr â'r canllawiau statudol newydd a bydd yn cynnwys nifer a chanran y plant sy'n cael eu haddysgu gartref sy'n cael eu gweld ac y ceir sgwrs flynyddol â nhw ynghylch eu haddysg.

12. Ysgolion annibynnol

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rwy'n disgwyl gweld y cynnydd ar y gwaith hwn yn parhau, ac rwy'n disgwyl i Lywodraeth Cymru symud y rheoliadau ymlaen yn y Senedd, fel bod gofyn i staff ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Rhaid cadw at yr amserlen o ddod â'r rheoliadau hyn i rym erbyn mis Ebrill 2023.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Mae'r Gorchymyn drafft sy'n diwygio Deddf Addysg (Cymru) 2014 i'w gwneud yn ofynnol i staff mewn ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg ar y gweill. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ein cynigion ar gyfer grwpiau cofrestredig newydd rhwng 1 Mawrth a 24 Mai 2022. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion ar 29 Medi. Bydd ail ymgynghoriad yn cael ei agor yn ddiweddarach yn yr hydref gan ganiatáu i randdeiliaid roi sylwadau ar y Gorchymyn drafft a'n cynigion cysylltiedig ar gyfer ffioedd. Y nod yw cael y ddeddfwriaeth newydd yn ei lle yn y gwanwyn.

13. Cymwysterau

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod byrddau arholi yn darparu gwybodaeth lefel uwch mewn modd prydlon a hygyrch ynghylch trefniadau a chynnwys cymwysterau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2023. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth benodol i gymwysterau galwedigaethol. Diben hynny yw sicrhau bod ysgolion a lleoliadau yn gallu addysgu'r cwrs llawn, a'u bod yn cael eu hannog i wneud hynny, a bod modd i'r dysgwyr sicrhau ffocws i'w cyfnod o adolygu.

Dylid cyhoeddi asesiad effaith llawn ar gydraddoldeb ochr yn ochr â'r wybodaeth lefel uwch a gyhoeddir.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Rydym yn ddiolchgar i swyddfa'r Comisiynydd Plant am y cymorth a'r cyngor a ddarparwyd mewn perthynas â chymwysterau 2021 ac ers hynny.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwybodaeth gynnar am arholiadau i bobl ifanc, eu teuluoedd, ac athrawon a darlithwyr. Rydym yn cydnabod yr aflonyddwch y mae'r garfan hon o ddysgwyr wedi'i brofi ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth barhaus. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda CBAC, Cymwysterau Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru, ochr yn ochr â'n partneriaid mewn ysgolion, colegau, awdurdodau lleol, a Gyrfa Cymru i sicrhau bod ein dysgwyr yn cael eu cefnogi'n llawn cyn ac yn ystod y gyfres nesaf o arholiadau.

Ym mis Mai 2022 cyhoeddodd Cymwysterau Cymru lythyr i ysgolion a cholegau yn cyhoeddi na fyddai addasiadau a roddwyd ar waith yn 2021 a 2022 yn gymwys mwyach, ond y byddai gwybodaeth ymlaen llaw yn cael ei darparu ar gyfer arholiadau 2023 yn ystod y flwyddyn academiaidd. Ar ddiwedd tymor yr haf, ysgrifennodd Cymwysterau Cymru eto at ysgolion a cholegau i roi rhagor o wybodaeth am amserlen CBAC ar gyfer rhyddhau gwybodaeth ymlaen llaw. Darperir gwybodaeth ymlaen llaw gan CBAC er mwyn cefnogi dysgwyr drwy roi syniad iddynt o'r pynciau, y themâu, y testunau neu gynnwys arall y gallant eu disgwyl yn eu harholiadau. Y prif nod yw helpu dysgwyr i ganolbwyntio ar agweddau penodol wrth adolygu er mwyn cefnogi eu paratodau ar gyfer arholiadau ac asesiadau.

Ar 29 Medi 2022, cadarnhaodd Cymwysterau Cymru y dull graddio fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfres arholiadau haf 2023. Y bwriad yw i ganlyniadau eleni ddisgyn tua hanner ffordd rhwng canlyniadau 2019 a chanlyniadau 2022. Mae'r dull hwn yn ystyried yr aflonyddwch a brofwyd gan ddysgwyr yn ystod y pandemig a'r ffaith y dyfarnwyd cymwysterau AS a rhai unedau TGAU eleni - gan ddefnyddio dull graddio gwahanol – ac y bydd y rhain yn cael effaith ar y graddio yr haf nesaf. Mae'n arwydd o gam nesaf taith system gymwysterau Cymru i ddychwelyd at y trefniadau asesu a oedd yn cael eu defnyddio cyn y pandemig. Mae hefyd yn cynnal cymorth i ddysgwyr, ysgolion a cholegau gyda gwybodaeth ymlaen llaw a dull graddio cefnogol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Cymwysterau Cymru i sicrhau bod y trefniadau ar gyfer haf 2023 yn cael eu cyfleu mewn modd agored a thryloyw.

Mae'r dirwedd cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn llawer mwy cymhleth nag ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Mae mwy na 600 o gymwysterau galwedigaethol wedi'u cyflwyno yng Nghymru, ac mae hefyd angen asesiadau ymarferol o gymhwysedd galwedigaethol ar lawer o gymwysterau galwedigaethol, yn ogystal ag arholiadau ar wybodaeth pwnc.

Hefyd, mae'r rhan fwyaf o gymwysterau galwedigaethol y mae dysgwyr yng Nghymru yn ymgymryd â hwy hefyd ar gael yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Caiff y cymwysterau hyn hefyd eu rheoleiddio gan Ofqual, y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr, sy'n golygu nad yw'n bosibl cytuno ar ateb i Gymru yn unig fel sydd gennym ar gyfer cymwysterau cyffredinol. Mae Ofqual yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill, gan gynnwys Cymwysterau Cymru, er mwyn sicrhau dull gweithredu cyson ym mhob gwlad.

Mae Ofqual wedi cyhoeddi na fydd addasiadau sydd wedi bod yn eu lle ar gyfer 2022 yn parhau yn 2023. Ni fydd gwybodaeth ymlaen llaw yn cael ei chaniatáu yn Lloegr. Bydd hyn yn effeithio ar nifer bach o gymwysterau galwedigaethol a wnaeth ddefnyddio gwybodaeth ymlaen llaw yn 2022.

Mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi y bydd gwybodaeth ymlaen llaw ar gael ar gyfer cymwysterau TGAU, AS a Safon Uwch yn 2023 er mwyn cefnogi dysgwyr i baratoi ar gyfer arholiadau. Gall gwybodaeth ymlaen llaw hefyd fod yn addas ar gyfer rhai cymwysterau galwedigaethol a wnaed i Gymru. Bydd CBAC yn sicrhau bod gwybodaeth ymlaen llaw ar gael ar gyfer cymwysterau galwedigaethol cymeradwy sy'n cael eu hasesu drwy arholiadau. Mae'r rhain ar gyfer cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau, a'r unedau a archwilir o fewn cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 mewn Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori. Bydd Cymwysterau Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu ystyried yr hyn sydd yn ei le ar gyfer TGAU a Safon Uwch pan fyddant yn pennu safonau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a wnaed i Gymru, er mwyn sicrhau nad yw dysgwyr galwedigaethol o dan anfantais.

Gall rhai o'r datblygiadau arloesol a gyflwynwyd yn ystod y pandemig barhau, gan gynnwys y defnydd o oruchwyllo o bell ar gyfer rhai cymwysterau. Bydd cyrff dyfarnu yn cael eu hannog i gynnal unrhyw arfer arloesol nad yw'n lleihau dilysrwydd a dibynadwyedd yr asesiadau.

Bydd Cymwysterau Cymru yn parhau i fonitro sefyllfa iechyd y cyhoedd ac yn cwrdd yn rheolaidd â chynrychiolwyr canolfannau, Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr cymwysterau a chyrff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau galwedigaethol i ymateb i risgiau a materion sy'n gysylltiedig â darparu asesiadau a dyfarniadau yn 2022/23. Pe byddai newid sylweddol yn y sefyllfa o ran iechyd y cyhoedd sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno trefniadau wrth gefn, gellir ailgyflwyno agweddau ar y Fframwaith Rheoleiddio Cymwysterau Galwedigaethol (VCRF) a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus yn 2022 er mwyn helpu i asesu cynnydd dysgwyr.

14. Cefnogaeth ysgol gyfan i iechyd meddwl a llesiant

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Fframwaith Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yn cael ei estyn ar draws holl ysgolion Cymru. Dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o'r gwaith hwn trwy eu hysgol, fel y nodir yn fframwaith y dull gweithredu ysgol gyfan, ond hefyd trwy strwythurau cyfranogiad sydd eisoes yn bodoli yn Llywodraeth Cymru.

Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu adnoddau hygyrch, hwylus i blant, ac adnoddau cefnogol i staff ysgolion, fel bod modd rhoi'r polisi hwn ar waith yn llwyddiannus. Dylid cyhoeddi'r adnoddau hyn erbyn mis Medi 2023.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Rydym yn croesawu'r argymhelliad i sicrhau bod y Dull Ysgol Gyfan yn cael ei gyflwyno i bob ysgol, gan ei fod yn atgyfnerthu ein hymdrechion i annog ysgolion i weithredu eu dull unigol a chyfartal eu hunain, gan gynnwys sicrhau bod llais y person ifanc wrth wraidd y broses.

Ein nod yw adeiladu ar y Fframwaith sydd wedi'i gyhoeddi ar hyn o bryd a'r adnoddau sydd ar gael, drwy ddeall yr hyn sy'n ofynnol yn y maes a darparu adnoddau priodol i gefnogi disgyblion ac ysgolion.

15. Adolygiad teithio gan ddysgwyr

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Mae adolygiad y Llywodraeth ei hunan wedi dod i'r casgliad nad yw gwneud dim yng nghyswllt y Mesur yn cael ei ystyried yn briodol. O ystyried effaith gynyddol yr argyfwng costau byw ac argyfwng yr hinsawdd, mae rhaid i'r Llywodraeth symud ymlaen ar frys gyda'r gwaith pellach sy'n ofynnol i ddiweddarau'r Mesur a'r canllawiau cysylltiedig, gan fod newid deddfwriaethol yn debygol o fod yn ofynnol i'w sicrhau.

Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir ac ar frys y terfynau amser ar gyfer cyflawni'r newid deddfwriaethol hwn erbyn diwedd tymor y Senedd, a rhaid i farn pobl ifanc fwydo i gyfnod nesaf y gwaith.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Ar hyn o bryd mae swyddogion yn cynllunio'r adolygiad a fydd yn dechrau yn ystod hydref 2022. Bydd yr adolygiad yn ystyried: diwygio'r mesur yn llwyr ochr yn ochr â gwaith i gynyddu'r ddarpariaeth i weithredwyr; ac integreiddio'n well â pholisïau cysylltiedig, megis anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth i sefydliadau addysg bellach.

16. Gwaharddiadau

Argymhelliad y Comisiynydd Plant:

Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni eu hymrwymiad i newid y canllawiau statudol ynghylch gwaharddiadau. Dylid ymgynghori ar y canllawiau diwygiedig hyn o fewn 2022/23, a chyhoeddi'r canllawiau erbyn mis Medi 2023.

Ymateb Llywodraeth Cymru: Derbyn

Rydym yn rhannu pryderon y Comisiynydd am nifer cynyddol y gwaharddiadau tymor penodol, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.

Bydd gwaith i ddiweddarau canllawiau gwahardd yn cael ei wneud ochr yn ochr ag adolygiadau o bolisiau rhyng-gysylltiedig eraill, megis presenoldeb ac ymddygiad.

Atodiad A – Crynodeb o Ymatebion Llywodraeth Cymru

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
Safon Byw sy'n Ddigonol		
1.	<p>Rhaid i daclo achosion gwaelodol tlodi plant barhau'n ffocws clir a pharhaus i Lywodraeth Cymru, gan fod hynny'n sylfaen ar gyfer cynifer o'u cyfleoedd mewn bywyd a'u canlyniadau a'u rhagolygon i'r dyfodol. Mae angen i'r gwaith eleni'n arbennig ymdrin â theuluoedd ar gyrion gofal, lle mae plant mewn perygl o gael niwed neu gael eu hesgeuluso, a mynd i'r system ofal.</p> <p>Dylai hyn ffurfio rhan o Gynllun Gweithredu Tlodi Plant. Rhaid i Lywodraeth Cymru osod targedau uchelgeisiol ar gyfer taclo tlodi plant yng Nghymru, gan ddefnyddio'r dulliau sydd ar gael iddynt, ochr yn ochr â chynllun gweithredu cyhoeddus cynhwysfawr, ac amserlenni a fydd yn manylu ar sut caiff y bunt gyhoeddus yng Nghymru ei gwario ar liniaru effaith tlodi plant yng Nghymru. Rhaid cyhoeddi'r cynllun hwn ochr yn ochr â'r strategaeth tlodi plant wedi'i diweddar, sydd i'w chyhoeddi erbyn diwedd 2022.</p>	Derbyn
2.	<p>Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys ymrwymiad i beilot o gynnis trafndiaeth gyhoeddus ar y bus a'r trê'n am ddim i bobl ifanc o dan 18 oed yn ei chynlluniau deddfwriaethol sydd i ddod ar gyfer trafndiaeth yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys dadansoddiad cost a budd ac amserlenni manwl ar gyfer rhychwantu a rhoi ar waith. Bydden ni'n gweld hyn fel elfen hanfodol o daclo tlodi plant yng Nghymru, a bydden ni'n disgwyl gweld hyn yn cael ei gynnwys mewn cynllun tlodi plant cynhwysfawr.</p>	Derbyn mewn egwyddor
3.	<p>Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno manylion ynghylch sut mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn cynnig eiriolaeth annibynnol sy'n hygyrch ac yn cynnwys eiriolaeth wyneb yn wyneb yn ôl y gofyn. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y cynnig eiriolaeth hwn yn cael ei hyrwyddo'n glir mewn lleoliadau iechyd a hefyd, yn bwysig, ar wefannau byrddau iechyd.</p> <p>Dylid cyflwyno'r cynnig eiriolaeth trwy ganllawiau statudol annibynnol. Yn gam cyntaf at hyn, dylid cyhoeddi cyfres o fanylebau gwasanaeth ar gyfer eiriolaeth i blant ym maes gofal iechyd. Dylai estyn cynnig eiriolaeth gychwyn â hawl i bawb sy'n cael mynediad i wasanaethau iechyd meddwl uwchradd.</p>	Derbyn mewn egwyddor
Amgylchedd y Teulu a Gofal Amgen		
4.	<p>Mae angen i gynlluniau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar gyfer llety newydd diogel wneud cynnydd yn gyflym er mwyn dod yn weithredol yn 2022/23, gyda gorolwg a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod pob enghraifft yn amgylchedd therapiwtig sy'n cael eu</p>	Derbyn mewn egwyddor

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
	<p>hariannu a'u cyflwyno ar y cyd gan iechyd a gofal cymdeithasol fel partneriaid cyfartal.</p> <p>Rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi'n ddi-oed ddatganiad ysgrifenedig yn manylu ar sut mae gwneud gwelliannau a gynhelir i'r Ddarpariaeth Iechyd Meddwl Haen 4 a'r ddarpariaeth Lles Diogel yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc sydd angen gofal yn y lleoliadau hyn yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel, therapiwtig.</p>	
5.	<p>Mae'n rhaid datblygu deddfwriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddi – i ddiogelu a chynnal hawliau plant ym maes gofal cymdeithasol – a'i chyflwyno cyn gynted â phosibl er mwyn sicrhau ei bod yn dod i rym yn gyfforddus o fewn tymor cyfredol y Senedd. Hefyd mae angen darparu cyllid ar gyfer unrhyw hawliau deddfwriaethol newydd.</p>	Derbyn
6.	<p>Bydd rhoi Siarter Rhianta Corfforaethol newydd ar waith yn llwyddiannus yn galw am newidiadau deddfwriaethol neu reoliadol er mwyn mynnu bod sefydliadau'n cydymffurfio â'r dyletswyddau. Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno amserlen ar gyfer symud y newid deddfwriaethol hwn ymlaen erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2022/23.</p>	Derbyn
7.	<p>Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu gweithgor yn 2022/23 i archwilio Llety heb ei Reoleiddio a Lleoliadau heb eu Cofrestru. Rhaid mai nodau'r gwaith hwn fydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Casglu data i ddatblygu dealltwriaeth o'r defnydd ohono yng Nghymru; • Ystyried anghenion y bobl ifanc yr effeithir arnyn nhw er mwyn canfod ble mae diffygion yn y llety sydd ar gael; ac • Archwilio a oes angen newidiadau yn y system reoleiddio yng Nghymru i ddyfarnu amddiffyniad cryfach i bobl ifanc. <p>Mae angen cwblhau'r gwaith yn y tymor Senedd hwn, gan gynnwys unrhyw newidiadau rheoliadol sy'n ofynnol.</p>	Derbyn
Amddiffyn Rhag Ecsbloetio a Thrais		
8.	<p>Yn dilyn cyhoeddiad terfynol yr Ymchwiliad Annibynnol ar Gamdrin Plant yn Rhywiol, rhaid i Lywodraeth Cymru gydlynu a chyhoeddi Cynllun Gweithredu ar gyfer Cymru i sicrhau bod yr hyn a ddysgwyd a'r argymhellion yn cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru. Dylai pobl ifanc eu hunain fod yn gyfranogwyr yn y gwaith hwn. Bydd angen gwneud hyn mewn modd diogel a sensitif.</p>	Derbyn
9.	<p>Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiadau cynnydd blynyddol ar waith y Glasbrynt Cyfiawnder Ieuencid yn 2022/23, i gynorthwyo atebolrwydd. Dylai hyn ymdrin â materion troseddoli pobl ifanc,</p>	Derbyn

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
	<p>gorgynrychiolaeth rhai grwpiau ac effaith iechyd meddwl gwael ar y rhai sydd mewn cysylltiad â gwasanaethau cyfiawnder ieuencid. Dylid defnyddio'r wybodaeth hon i lywio cynnydd o ran Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru.</p> <p>Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cynnwys yn weithredol ac yn ystyrion er mwyn datblygu'r Prosiect Cartrefi Bach eleni, er mwyn newid ymhellach sut rydyn ni'n ymateb i anghenion pobl ifanc ac yn ymdrin â nhw trwy wasanaethau cyfiawnder ieuencid.</p>	
Addysg, Dinasyddiaeth a Gweithgareddau Diwylliannol		
10.	Rwy'n argymhell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio dull seiliedig ar gydraddoldeb i werthuso gweithrediad diwygiadau addysg. Dylai hynny asesu i ba raddau mae gwahanol grwpiau o blant yn elwa o'r dull newydd o ymdrin â'r cwricwlwm, gan gynnwys plant a phobl ifanc â nodweddion gwarchoddedig, ac anghenion dysgu ychwanegol. Dylid casglu canfyddiadau cychwynol ym mlwyddyn gyntaf gweithredu'r cwricwlwm, a dylen nhw lywio'r gefnogaeth barhaus ar gyfer gweithredu.	Derbyn
11.	Rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynllun gwerthuso ar gyfer gweithredu'r canllawiau statudol newydd, ochr yn ochr â'r canllawiau hynny. Dylai hyn fesur yn benodol pa ganran o blant a addysgir gartref sy'n cael eu gweld, ac y ceir sgwrs flynyddol â nhw ynghylch eu haddysg.	Derbyn
12.	Rwy'n disgwyl gweld y cynnydd ar y gwaith hwn yn parhau, ac rwy'n disgwyl i Lywodraeth Cymru symud y rheoliadau ymlaen yn y Senedd, fel bod gofyn i staff ysgolion annibynnol gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg. Rhaid cadw at yr amserlen o ddod â'r rheoliadau hyn i rym erbyn mis Ebrill 2023.	Derbyn
13.	Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chymwysterau Cymru i sicrhau bod byrddau arholi yn darparu gwybodaeth lefel uwch mewn modd prydol a hygyrch ynghylch trefniadau a chynnwys cymwysterau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2023. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth benodol i gymwysterau galwedigaethol. Diben hynny yw sicrhau bod ysgolion a lleoliadau yn gallu addysgu'r cwrs llawn, a'u bod yn cael eu hannog i wneud hynny, a bod modd i'r dysgwyr sicrhau ffocws i'w cyfnod o adolygu. Dylid cyhoeddi asesiad effaith llawn ar gydraddoldeb ochr yn ochr â'r wybodaeth lefel uwch a gyhoeddir.	Derbyn
14.	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Fframwaith Dull Gweithredu Ysgol Gyfan yn cael ei estyn ar draws holl ysgolion Cymru. Dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o'r gwaith hwn trwy eu hysgol, fel y nodir yn fframwaith y dull gweithredu ysgol gyfan, ond hefyd trwy strwythurau cyfranogiad sydd eisoes yn bodoli yn Llywodraeth Cymru. Rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu adnoddau hygyrch, hwylus i blant, ac adnoddau cefnogol i staff ysgolion, fel bod modd rhoi'r polisi hwn ar waith yn llwyddiannus. Dylid cyhoeddi'r adnoddau hyn erbyn mis Medi 2023.	Derbyn

Argymhelliad		Ymateb Llywodraeth Cymru
15.	<p>Mae adolygiad y Llywodraeth ei hunan wedi dod i'r casgliad nad yw gwneud dim yng nghyswllt y Mesur yn cael ei ystyried yn briodol. O ystyried effaith gynyddol yr argyfwng costau byw ac argyfwng yr hinsawdd, mae rhaid i'r Llywodraeth symud ymlaen ar frys gyda'r gwaith pellach sy'n ofynnol i ddiweddarau'r Mesur a'r canllawiau cysylltiedig, gan fod newid deddfwriaethol yn debygol o fod yn ofynnol i'w sicrhau.</p> <p>Rhaid i Lywodraeth Cymru nodi'n glir ac ar frys y terfynau amser ar gyfer cyflawni'r newid deddfwriaethol hwn erbyn diwedd tymor y Senedd, a rhaid i farn pobl ifanc fwydo i gyfnod nesaf y gwaith.</p>	Derbyn
16.	<p>Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflawni eu hymrwymiad i newid y canllawiau statudol ynghylch gwaharddiadau. Dylid ymgynghori ar y canllawiau diwygiedig hyn o fewn 2022/23, a chyhoeddi'r canllawiau erbyn mis Medi 2023.</p>	Derbyn